OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 106 (Cy.20)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - -	*24 Ionawr 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*27 Ionawr 2009*
Yn dod i rym - -	*20 Chwefror 2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 66(1), 68(1), 69(1), 74A ac 84 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970(**1**).

Bu ymgynghori yn ystod gwaith paratoi'r Rheoliadau hyn yn unol â gofynion adran 84(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 neu, fel y bo'n briodol, o Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**2**) sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2009 a deuant i rym ar 20 Chwefror 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006

2.—(1) Diwygier Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006(**3**) yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Yn Atodlen 5 (cyfyngiadau rhagnodedig ar gyfer sylweddau annymunol) —

(a) ym Mhennod A, yn y cofnodion ynghylch fflworin—

(i) ar ôl y cofnod olaf yng ngholofn 2 ychwaneger "— complete feeding stuffs for fish", a

(**1**) 1970 p.40. Mae adran 66(1) yn cynnwys diffiniadau o'r ymadroddion "the Ministers", "prescribed" a "regulations". Diwygiwyd y diffiniad o "the Ministers" gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S.1978/272), Atodlen 5, paragraff 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32). Mewnosodwyd adran 74A gan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68), Atodlen 4, paragraff 6.

(**2**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 202/2008 (OJ Rhif. L60, 5.3.2008, t.17).

(**3**) O.S. 2006/116 (Cy. 14) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/617 (Cy.69), O.S. 2006/2928 (Cy. 263), O.S. 2006/3256 (Cy. 296), O.S. 2007/3171 (Cy. 277) ac O.S. 2008/1806 (Cy. 174).

(ii) ar ôl y cofnod olaf yng ngholofn 3 ychwaneger "350";

(b) ym Mhennod C —

(i) hepgorer y cofnodion ynghylch *Apricots, Bitter almond and Camelina*;

(ii) ar gyfer y cofnodion ynghylch *Weed seeds etc*. rhodder y canlynol —

Column 1 *Undesirable substances*	*Column 2* *Products intended for animal feed*	*Column 3* *Maximum content in mg/kg of feeding stuffs referred to a moisture content of 12%*
Weed seeds and unground and uncrushed fruits containing alkaloids, glucosides or other toxic substances, separately or in combination including:	All feeding stuffs	3000
Datura stramonium L.		1000

(c) ym Mhennod D, yn y cofnodion ynghylch DDT yng ngholofn 1, yn lle'r ymadrodd mewn cromfachau rhodder "(sum of DDT-, DDD- (or TDE-) and DDE-isomers, expressed as DDT)".

(3) Yn Atodlen 7 (bwydydd anifeiliaid a ganiateir at ddibenion maethiadol penodol a darpariaethau ynghylch eu defnyddio), yn lle'r cofnodion ynghylch cefnogi swyddogaeth arennol mewn achos o annigonolrwydd cronig yr arennau yn rhes gyntaf y tabl ym Mhennod A, rhodder y cofnodion a osodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Gwenda Thomas
O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

24 Ionawr 2009